# ELLS(2) 13-06(p6)

## Y Pwyllgor Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL
27 MEDI 2006
Papur i’w Nodi

Datblygu’r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (EQF) a’r berthynas gyda Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru (CQFW).

CRYNODEB

1. Y FFRAMWAITH CYMWYSTERAU EWROPEAIDD

Mae Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru (CQFW) yn hollol gyson â datblygiad y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (EQF) fel meta-fframwaith disgrifiadol lefel-uchel.

Mae’r CQFQ wedi bod yn weithredol ers peth amser gan fod mewn safle cryf i ddylanwadu ar ddatblygiad y EQF oherwydd ei fod ef ei hun yn fframwaith eang sy'n cwmpasu 4 o fframweithiau gweithredol - Addysg Uwch, y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF) i Loegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, a fframweithiau cymwysterau yn ymdrin â dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol. Mae’r CQFW yn seiliedig ar ddeilliannau dysgu ac yn hwyluso symud a throsglwyddo credyd rhwng fframweithiau.

Mae’n bwysig nodi na fydd y EQF yn disodli fframweithiau cenedlaethol na phrosesau Bologna neu Copenhagen, ac na fydd yn rheoleiddiol. Prif fantais y EQF yw ei botensial fel dyfais gyfieithu a fydd yn galluogi fframweithiau cenedlaethol i berthnasu â’i gilydd yn eglur a chyson, a thrwy hynny gynorthwyo tryloywder a chyd-ddealltwriaeth o fathau gwahanol o ddysgu a hyfforddi, cymwysterau a fframweithiau'r gwahanol wledydd.

Yn y modd hwn, mae gan EQF y potensial i gefnogi unigolion wedi iddynt groesi ffiniau i fanteisio ar gyfleoedd gwaith neu astudio, ac i gyflogwyr wrth iddynt recriwtio o gronfa eang o weithwyr medrus o Ewrop.

Mae angen sicrhau nodau eglur a chytunedig i’r EQF sy’n wahanol i rai fframweithiau eraill (gan gynnwys rhai cenedlaethol) a rhaid: cael strategaeth gyfathrebu briodol sy’n ymwneud â’r holl randdeiliaid. Prif nodau’r fframwaith yw:

- galluogi tryloywder a chyd-ddealltwriaeth rhwng gwledydd o gymwysterau (gan gynnwys dysgu ieithoedd). Bydd hyn yn hanfodol i unigolion sydd am i’w cymwysterau gael eu cydnabod;

- bod yn gyson gyda datblygiadau mewn trosglwyddo credyd;
- gallu ymdrin â'r amrywiaeth o gymwysterau ar draws yr Undeb Ewropeaidd; a
- bod yn ddealladwy i'r sawl nad ydynt yn gyfarwydd gyda therminoleg addysg

Gan nad oes gan y DU fframwaith sengl, mae'n bwysig bod cydnabyddiaeth o fframweithiau unigol y DU drwy Ewrop.

## 2. YMGYNGHORIAD Y FFRAMWAITH CYMWYSTERAU EWROPEAIDD

Yn y broses ymgynghori gyhoeddus ar EQF yn ystod ail hanner 2005, mae crynodeb o'r prif ganlyniadau yn dangos meysydd o gonsensws eang. Gwelir y EQF fel menter flaengar a ddylai gyfrannu'n sylweddol at dryloywder, cydnabyddiaeth a natur drosglwyddadwy cymwysterau ar lefel Ewropeaidd. Fe fydd hefyd yn ysgogi diwygiadau cenedlaethol ac adrannol er budd dysgu gydol oes. Mae'r ymatebion yn dangos bod cytundeb eang ar y materion canlynol:

- bod yr EQF yn angenrheidiol a pherthnasol;
- dylid ei weithredu a'i ddefnyddio'n wirfoddol;
- dylai'r EQF barhau yn fframwaith cyfeiriad cyffredin neu feta-fframwaith, yn gweithredu fel dyfais gyfieithu ar y lefel Ewropeaidd;
- rhaid i'r EQF fod yn seiliedig ar ddeilliannau dysgu;
- mae'r strwythur 8-lefel a gynigir fwy neu lai yn dderbyniol a gallai gyd-fynd yn dda â'r lefel Mynediad plws 8 o fewn y CQFW;
- mae'n rhaid i egwyddorion a threfniannau Sicrhau Ansawdd fod yn sail i'r EQF;
- bydd gweithredu'r EQF yn gofyn am ymrwymiad sylweddol gan randdeiliaid ar y lefel genedlaethol gan gynnwys, i'r gwledydd niferus sydd wedi penderfynu gwneud hynny, ddatblygiad Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol eang.

## 3. MEYSYDD AR GYFER DATBLYGU PELLACH

Mae'r gefnogaeth eang hon i'r EQF yn amodol ar ddatblygu a mireinio pellach. Mae nifer o'r rhai sydd wedi ymateb yn tynnu sylw at yr angen am eglurdeb, symleiddio a phrofi. Rhagwelir y bydd gwaith pellach ar yr agweddau canlynol:

- bydd angen eglurhad pellach ar ddisgrifiadau lefel cyfeiriol er mwyn eu symleiddio a chaiff gweithgor ei sefydlu;
- cysylltu â phroses Bologna – mae'n rhaid i'r EQF barhau i sicrhau bod modd cydnabod uwch hyfforddiant galwedigaethol a chymwysterau proffesiynol yn llawn ar lefelau 6, 7 a 8 a hefyd cynnwys cyfeiriad eglur iawn at y fframwaith a ddatblygwyd yng nghyd-destun Bologna;
- mae'n rhaid i'r broses o sefydlu fframweithiau cymwysterau cenedlaethol fod yn seiliedig ar ddeilliannau dysgu ac mae'n rhaid eu cysylltu â systemau ar gyfer dilysu dysgu nad yw'n ffurfiol a dysgu anffurfiol yn ogystal ag at weithdrefnau sicrhau ansawdd;
- dylid ystyried ychwanegu lefel "mynediad" gyda'i ddisgrifiad lefel ei hunan;
- profi, dan raglen Leonardo da Vinci, ddatblygiad yr EQF a systemau cymwysterau cenedlaethol;
- sefydlu clwstwr o wledydd sydd â diddordeb mewn cydweithio er mwyn adnabod deilliannau

dysgu, gan gynnwys dysgu nad yw’n ffurfiol a dysgu anffurfiol; ac

Fe dderbynnir yn gyffredinol y dylai’r datblygiad EQF yn ei hunan ffurfio fframwaith ar gyfer cydweithrediad. Ni ddylai’r fframwaith dechreuol fod yn haearnaidd, ond yn hytrach dylai fod yn agored i’w addasu yn y dyfodol.

Mae’r EQF yn gosod allan fframwaith eang o lefelau cyfeiriol all fod yn berthnasol i’r amrywiaeth mawr o gymwysterau a dysgu ar bob lefel. Fel y cynigir ar hyn o bryd, mae’n ymddangos bod y lefelau isaf yn gogwyddo tuag at Hyfforddiant ac Addysg Galwedigaethol tra bo’r lefelau uchaf yn gogwyddo fwy at Addysg Uwch. Yng Nghymru, mae’r cysyniad ar gyfer fframwaith hyblyg yn seiliedig ar gredyd i ddysgu gydol oes sy’n ddigon eang ei gwmpawd i gynnwys yr holl fathau o ddysgu. Caiff y cysyniad hwn ei argymell yn gryf i’r Comisiwn Ewropeaidd yn ystod y broses ymgynghori gyhoeddus arfaethedig ynghylch sefydlu system trosglwyddo credyd i addysg a hyfforddiant galwedigaethol (ECVET), sydd i’w lansio yn Hydref 2006.

4. EQF A CQFW YN PARHAU GYDA GWAITH PELLACH

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dangos diddordeb, fel rhan o gonsortiwm o wledydd dan arweiniad Ffrainc, mewn profi aliniad fframweithiau cymwysterau cenedlaethol dan Raglen Leonardo.
- Mae hefyd yn gweithio drwy EARLALL ar fapio cymhwysedd drwy gyfrwng project ESVaC.
- Mae’n gweithio gyda Lloegr, Gogledd Iwerddon a’r Alban ar alinio fframwaith o fewn y DU ac yn cynnal ymarfer mapio rhwng y lefelau yn y CQFW dan Fwrdd Diwygio Cymwysterau Galwedigaethol y DU – gwaith a allai fod yn esiampl ar gyfer gweithredu ar lefel Ewropeaidd ehangach;
- Bydd yn cynnal seminar ym Mrwsel ar 19 Hydref mewn cydweithrediad â EARALL a Fframwaith Credyd a Chymwysterau’r Alban ar y rôl allai llywodraethau rhanbarthol ei chwarae yn natblygiad EQF;
- Bydd yn parhau gyda gwaith enghreifftiol o fewn y CQFW ar adnabod dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol gyda golwg ar ddylanwadu’r agenda yn Ewrop yn y meysydd hyn, a bydd yn galw cynhadledd ar hyn yng Nghymru yn Haf 2007; a
- Bydd yn parhau i gefnogi sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru mewn perthynas â Phroses Bologna ac Atodiad Diploma.

Trevor Clark

26 Awst 2006

Esboniadau

ESVAC

Gan ei bod yn aelod o EARLALL (Cymdeithas Ewrop o Awdurdodau Rhanbarthol a Lleol ar gyfer Dysgu Gydol Oes), mae Cymru yn cyfrannu at broject ESVAV (Cynllun Ewropeaidd er Dilysu Cymwyseddau).

Rhanbarth Tuscany sy'n arwain y project ac mae'n cynnwys partneriaid o nifer o ranbarthau aelodau EARLALL gan gynnwys Catalunya a Pfalz Rheindir. Mae'r project, sy'n cael ei ariannu o gronfa Leonardo, wedi canolbwyntio ar ddatblygu ymagweddau cyffredin at asesu cymwyseddau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol gyda golwg ar annog symudedd daearyddol ar draws Ewrop.

Gweler: www.earlall.org

ECTS

Datblygwyd ECTS, (Cyfundrefn Trosglwyddo Credydau Ewropeaidd) gan Gomisiwn y Cymunedau Ewropeaidd er mwyn darparu gweithdrefnau cyffredin i warantu cydnabyddiaeth academaidd i astudiaethau tramor. Mae'n ffordd o fesur a chymharu cyraeddiadau dysgu, a'u trosglwyddo o un sefydliad i'r llall. Mae'r system ECTS yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a hyder rhwng y sefydliadau addysg uwch sy'n cyfranogi. Mae nifer cyfyngedig o reolau yn gysylltiedig ag ECTS, yn ymwneud â gwybodaeth (ynghylch cyrsiau sydd ar gael), cytundeb (rhwng y sefydliadau cartref a derbyn) a'r defnydd o bwyntiau credyd (i nodi llwyth gwaith myfyrwyr), gyda'r bwriad o atgyfnerthu'r cyd-ymddiriedaeth a'r hyder hwn. Mae holl adrannau ECTS yn disgrifio'r cyrsiau y maent yn eu cynnig nid yn unig yn nhermau cynnwys, ond hefyd yn nhermau'r credydau a ddyrennir i bob cwrs.

BOLOGNA

Fe ddywedir bod Proses Bologna wedi dechrau gyda Datganiad Sorbonne. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, ar achlysur wyth canmlwyddiant Prifysgol Bologna, llofnodwyd Datganiad Bologna. Parhaodd y broses hon yn y cynadleddau yn Prague, Berlin a Bergen. Cynhelir cyfarfod nesaf Proses Bologna yn Llundain yn 2007, sef cyfarfod y gweinidogion

Menter rynglywodraethol yw Proses Bologna gyda'r nod o greu Rhanbarth Addysg Uwch Ewropeaidd (EHEA) erbyn 2010 a hyrwyddo'r system addysg uwch Ewropeaidd ledled y byd. Bellach, mae 45 o wledydd wedi llofnodi ac mae'n gweithredu y tu allan i fframwaith ffurfiol gwneud penderfyniadau'r Undeb Ewropeaidd. Mae gwneud penderfyniadau o fewn y Broses yn ddibynnol ar ganiatâd yr holl wledydd sy'n cyfranogi.

Fe'i lansiwyd yn 1999 pan gyfarfu Gweinidogion o 29 o wledydd Ewropeaidd, gan gynnwys y DU, yn Bologna gan lofnodi datganiad yn nodi beth oedd yn angenrheidiol ar gyfer creu EHEA erbyn diwedd y ddegawd. Dyma yw prif amcanion Proses Bologna: dileu'r rhwystrau i symudedd myfyrwyr ar draws Ewrop; cynyddu nodweddion deniadol addysg uwch Ewropeaidd ledled y byd; sefydlu strwythur cyffredin o systemau addysg uwch ar draws Ewrop, ac; i'r strwythur cyffredin hwn fod yn seiliedig ar ddwy brif gylch, israddedigion a graddedigion.

http://www.europeunit.ac.uk/bologna_process/index.cfm

BFUG (Grwp Dilyn Ymlaen Bologna)

Y grwp llywio sy'n cysylltu Cynadleddau'r Gweinidogion, gyda chynrychiolwyr y gwledydd sy'n

aelodau o Broses Bologna a’r Comisiwn Ewropeaidd, gyda Chyngor Ewrop, yr EUA, EURASHE, ESIB ac UNESCO/CEPES yn aelodau ymgynghorol. Llywydd yr Undeb Ewropeaidd sy’n cadeirio’r grwp, tra bod y wlad sy’n derbyn y Gynhadledd Gweinidogion nesaf yn gweithredu fel is gadeirydd. Mae’r grwp yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

Ardal Ymchwil Ewropeaidd

Project Undeb Ewropeaidd er cydgysylltu Polisi Ymchwil.

Gweler: http://europa.eu.int/research/era/index_en.html

Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd

Y weledigaeth sy’n greiddiol i Proses Bologna. Amcan y Broses yw creu Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd erbyn 2010.

Atodiad Diploma

Atodiad esboniadol i’r diploma a ddyfernir gan sefydliad addysg uwch. Dylai’r Atodiad Diploma fod yn un o’r prif ieithoedd Ewropeaidd gan ddarparu disgrifiad atodol o’r cymhwyster a gyflawnwyd gan yr ymgeisydd a’i le yn system addysg y wlad dan sylw.

ECTS (Cyfundrefn Trosglwyddo Credydau Ewropeaidd)

System i adnabod a throsglwyddo credydau a graddau.

ENQA (Rhwydwaith Ewropeaidd i Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch)

Y corff ymbarél Ewropeaidd ar gyfer asiantaethau sicrhau ansawdd o fewn addysg uwch

Gweler: http://enqa.net

ESIB (Undebau Cenedlaethol y Myfyrwyr yn Ewrop)

Y corff ymbarél Ewropeaidd ar gyfer undebau myfyrwyr cenedlaethol.

Gweler: http://esib.org

EUA (Mudiad Prifysgol Ewropeaidd)

Y corff ymbarél Ewropeaidd ar gyfer prifysgolion a chynadleddau prifathrawon cenedlaethol. Mae’r EUA yn aelod ymgynghorol o’r BFUG.

Gweler: http://www.eua.be

EURASHE (Mudiad Ewropeaidd Sefydliadau mewn Addysg Uwch)

Y corff ymbarél Ewropeaidd ar gyfer sefydliadau addysg uwch nad ydynt yn brifysgolion.

Mae EURASHE yn aelod ymgynghorol o'r BFUG.

Gweler: http://www.eurashe.be